



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Tai ac Adfywio  
Housing and Regeneration

Arweinwyr Awdurdodau Lleol (sy'n dal stoc dai)  
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (sy'n dal stoc dai)  
Prif Swyddogion Tai Awdurdodau Lleol (sy'n dal stoc dai)  
Cadeiryddion LCC  
Prif Weithredwyr LCC

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Gydweithiwr,

Ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at bob un o'r landlordiaid cymdeithasol yn ddiweddar, yn dilyn marwolaeth hynod drist bachgen dwy oed, Awaab Ishak, o ganlyniad iddo ddod i gysylltiad â llwydni a achosodd iddo ddatblygu gyflwr anadlol. Fel rwy'n siŵr eich bod yn gwybod, roedd y landlord cymdeithasol wedi cael gwybod am y llwydni, ond ni wnaeth ymateb yn briodol.

Gwnaethom ysgrifennu atoch y llynedd hefyd ynglŷn â diffyg atgyweirio tai cymdeithasol, a'r amodau ynddynt, gan geisio sicrwydd bod systemau, prosesau a gwaith monitro priodol ar waith er mwyn sicrhau bod cwynion a phroblemau yn cael sylw, y cynhelir ymchwiliadau llawn iddyn nhw, ac y cymerir camau yn eu cylch, gan gynnwys prosesau uwchgyfeirio cadarn. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd adborth ym mis Chwefror a ddarparodd rywfaint o ddysgu a rennir a nifer o 'bwyntiau meddwl' i bob landlord cymdeithasol eu hystyried.

Yn benodol, mae Pwynt Meddwl 9 o [Cyflwr a Diffyg Atgyweirio Tai Cymdeithasol](#) yn awgrymu y "dylai landlordiaid cymdeithasol sicrhau bod mesurau ar waith i nodi'n benodol broblemau sy'n ymwneud â lleithder a llwydni y rhoddwyd gwybod amdanynt a mynd i'r afael â nhw. Dylai hyn gynnwys cynnal ymchwiliad/archwiliadau yn ddiodyn, gan sicrhau bod anwedd a'i achosion yn cael eu diagnosio'n gywir, unioni unrhyw ddiffygion cyn gynted â phosibl a rhoi cymorth a chynghor i denantiaid, gan gynnwys cynghor ar dlodi tanwydd." Darparodd sawl landlord wybodaeth hefyd am gamau cadarnhaol roeddent wedi'u cymryd i reoli cwynion a phroblemau'n ymwneud â lleithder a llwydni.

Mae cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi yn greiddiol i fusnes landlord cymdeithasol, ac rwy'n siŵr eich bod i gyd yn adolygu polisïau a gweithdrefnau unwaith eto, gan fyfyrion ar y gwersi sy'n deillio o'r drychineb hon. Rwyf hefyd yn siŵr na fydd yn syndod ein bod ni, yn ein tro ac ar fyrder, yn ceisio sicrwydd nawr ynghylch sut mae landlordiaid yn ymateb.

Mae angen ichi rannu'r wybodaeth ganlynol â ni, ynglŷn â materion yn ymwneud â lleithder a llwydni:

- P'un a ydych chi wedi cynnal adolygiad o'r sefyllfa dros yr wythnosau diwethaf ac, os nad ydych chi wedi gwneud hynny, pam?
- Os ydych chi wedi cynnal adolygiad, beth rydych chi wedi'i ddysgu o ganlyniad?

- Os oes unrhyw achosion o leithder a llwydni nad ydynt wedi cael sylw effeithiol, pa mor ddifrifol yw hyn a beth yw eich cynlluniau ar gyfer unioni'r sefyllfa?
- Esboniwch y data sydd gennych mewn perthynas â lleithder a llwydni, gan gynnwys faint o stoc mae'n ei gwmpasu a pha mor aml y creffir arno a'i ddiweddarau.
- Esboniwch y sicrwydd ynghylch y gwaith craffu mae'r corff llywodraethu wedi'i wneud er mwyn iddo fod yn hyderus bod systemau a phrosesau'r sefydliad y gorau y gallant fod, ac nad ydynt yn gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â phroblemau lleithder a llwydni yn brydlon ac yn effeithiol.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon yr wybodaeth hon mewn e-bost at y blwch post [HousingConditions@llyw.cymru](mailto:HousingConditions@llyw.cymru) erbyn diwedd y dydd ar 20 Ionawr 2023. Efallai y byddwn yn gwneud gwaith dilynol ynghylch ymatebion gyda landlordiaid unigol ac mae'n bosibl y caiff dadansoddiad o'r ymatebion ei gyhoeddi er mwyn cefnogi gwelliannau a'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol ar draws sector y landlordiaid cymdeithasol.

Ar y cyd â'n partneriaid sector, rydym hefyd yn ystyried a fyddai'n ddefnyddiol cynnal rhagor o ddigwyddiadau "cefnogi", e.e. gweminarau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cais hwn, gofynnwn ichi anfon e-bost at y blwch post uchod yn hytrach na chysylltu ag unigolion.

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir



**EMMA WILLIAMS**

**Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio / Director of Housing and Regeneration**  
**Llywodraeth Cymru / Welsh Government**